# Arweiniad i eFentora Aber

cynllun **eFentora**
**eMentoring** scheme

## Cofrestru

Ewch i aber.aluminate.net a llenwch y ffurflen gofrestru.

Mae'n bosib y bydd angen i ni ddilysu eich cyfrif – os felly, cewch eich hysbysu drwy e-bost ar ôl i hyd ddigwydd. Os ydym eisoes wedi dilysu'ch cyfrif ymlaen llaw, gallwch fynd yn eich blaen i "Greu proffil".

## Creu proffil

Unwaith y bydd eich cyfrif wedi'i ddilysu gallwch roi eich proffil newydd ar waith. Cyn rhoi eich proffil ar waith, cewch gais i ddarllen "**Telerau ac Amodau Rhaglen eFentora Prifysgol Aberystwyth"** – os ydych yn cytuno â'r telerau hyn cliciwch y blwch priodol a phwyswch y botwm "Rwy'n cytuno".

Yna, byddwch yn cael cais i ddarllen "**Cyflwyniad Cyflym i eFentora Aber**" – ar ôl i chi ei ddarllen, cliciwch y groes ar frig y dudalen ar yr ochr dde.

Gallwch ddewis defnyddio'r system yn Gymraeg neu Saesneg drwy glicio ar y blwch melyn tua brig y dudalen ar yr ochr dde, ac yna dewis "Iaith" – yna nodwch eich iaith dewisol.

Y peth cyntaf sydd angen i chi wneud yw creu proffil – cliciwch ar y botwm proffil ar y ddewislen borffor tua brig y sgrin, a bydd hyn yn mynd â chi i'r dudalen Proffiliau

Cliciwch ar y tab "Personol" ac fe welwch nifer o flychau gwybodaeth – gallwch ychwanegu gwybodaeth at bob un o'r blychau drwy glicio ar "Golygu" yng nghornel uchaf y dudalen ar yr ochr dde. Gallwch hefyd uwch lwytho llun drwy glicio ar y gofod ar gyfer llun ar ochr chwith y dudalen.

Dylai'ch bywgraffiad cryno nodi pwy ydych chi a pham rydych yn defnyddio'r system e.e. "Rwy'n fyfyrwraig Daearyddiaeth yn fy nhrydedd blwyddyn ac rwy'n awyddus i gael cymorth a chyngor ar sut i ddod o hyd i swydd ym maes Systemau Gwybodaeth Daearyddol". "Rwy'n gyfrifydd profiadol sy'n gweithio yn Llundain, a gallaf gynnig cyngor ar yrfaoedd ym maes treth".

Gallwch olygu'r adran "Eich bywgraffiad" i ddarparu rhagor o fanylion os y dymunwch – gallwch hefyd ddewis a fydd modd i bobl eraill ddarllen yr adran hon ai peidio. Rydym yn argymell i chi ganiatáu pobl eraill i'w darllen, ac i gynnwys gwybodaeth yr ydych yn hapus i'w rannu ag eraill yn unig.

Gallwch hefyd ddarparu gwybodaeth ffeithiol berthnasol am eich gyrfa a'ch addysg.

Os ydych yn chwilio am fentor gallwch nawr glicio ar y "Chwilio" ar y ddewislen borffor – ewch i "Chwilio am fentor" am gyfarwyddiadau pellach.

## Creu proffil – gwybodaeth ychwanegol i'w darparu gan fentoriaid

Os hoffech gynnig gwasanaeth mentora cliciwch ar y tab "Mentor", ac yna cliciwch ar "Iawn" ger y cwestiwn "A hoffech fod yn fentor?". Gallwch nawr olygu'r blychau i greu proffil mentor.

Llenwch bob un o'r meysydd gwybodaeth os gwelwch yn dda. Er enghraifft, gellid llenwi proffil mentor fel a ganlyn:

**Crynodeb o fanylion y Mentor**: *Graddiais o Aber yn 1992 gyda gradd BSc mewn Ffiseg. Dechreuais fy ngyrfa yn gweithio ym myd diwydiant yn optimeiddio prosesau cynhyrchu teclynnau (widgets) ar gyfer Widgets-R-Us, ond yna dychwelais i'r byd academaidd i wneud PhD ar y testun "Obscure and Interesting Facts about Sprockets". Rwyf bellach yn ddarlithydd rhan amser yn Ysgol Ffiseg Llundain, ac rwyf hefyd yn gwneud gwaith ymgynghori ar fy liwt fy hun ym maes trosglwyddo technoleg.*

**Yn ddelfrydol hoffwn fentora**: *Myfyrwyr yn y gwyddorau sydd am fasnacheiddio eu syniadau neu weithio ym myd busnes.*

Mae'n bwysig iawn eich bod yn cwblhau'r adran "Gwasanaethau Mentor" – mae hyn yn eich galluogi i ddiffinio pa wasanaethau rydych chi'n fodlon eu cynnig. Rhaid i chi gynnig o leiaf un gwasanaeth o'r rhestr.

Mae'r adran "Hanes y mentor" yn eich galluogi i ddiffinio sawl myfyriwr yr ydych yn hapus mentora ar yr un pryd. Er mai 1 yw'r rhagosodiad, gallwch ei gynyddu os y dymunwch.

Mae'r adran "Arbenigedd" yn eich galluogi i ddiffinio'ch prif arbenigedd – ceisiwch osgoi bod yn or-benodol. Er enghraifft, gallech ddiffinio'ch prif arbenigedd fel "Cyfrifyddu Personol". Gallwch ychwanegu rhagor o fanylion yn yr adran "Ychwanegu tagiau" e.e. fe allai'r cyfrifydd personol ychwanegu "Cyngor ar dreth, rheoli cyfoeth a llunio ewyllysiau"

Ar ôl i chi gwblhau eich proffil, a'ch bod yn hapus ag ef, gallwch allgofnodi o'r system drwy glicio ar y blwch melyn tua brig y dudalen ar y dde, ac yna dewis "Allgofnodi". Pan fydd myfyriwr yn dymuno anfon neges atoch byddwch yn derbyn hysbysiad drwy e-bost – gallwch dderbyn neu wrthod unrhyw geisiadau mentora a gewch.

**Chwilio am fentor**

Cliciwch ar "Chwilio" ar y ddewislen borffor. Gallwch chwilio yn ôl allweddair ac yna hidlo yn ôl blwyddyn raddio a'r gwasanaethau mentora a gynigir. Os bydd eich chwiliad yn arwain at ganlyniadau byddant yn ymddangos yng nghanol y sgrin – gallwch glicio ar unigolion i weld eu proffil mentora.
Os ydych yn teimlo y byddai'r person hwn yn addas i chi, gallwch anfon neges atynt drwy glicio ar "Anfon neges" o dan enw'r person hwnnw. Gallwch hefyd ofyn i gael eich mentora drwy glicio ar "Anfon cais mentora". Yn y ddau achos bydd blwch yn ymddangos lle cewch deipio neges a'i hanfon. Os ydych yn gwneud cais am fentora gallwch hefyd ddewis pa wasanaethau mentora penodol sydd o ddiddordeb i chi.

Gall mentor dderbyn neu wrthod eich cais – cewch eich hysbysu ynghylch y canlyniad drwy e-bost. Gallwch weld eich ceisiadau drwy glicio ar "Ceisiadau" ar y ddewislen borffor.

Gallwch hefyd chwilio am fentoriaid o hafan eFentora Aberystwyth.

**Allgofnodi**

Gallwch allgofnodi o'r system drwy glicio ar  y blwch melyn tua brig y dudalen ar y dde, ac yna dewis "Allgofnodi".